



Cyflwyniad



Yn ystod yr asesiad yma byddaf yn trafod y defnydd o asesu ar gyfer dysgu yn ystod gwrs Llythrennedd a pwysigrwydd wrth wella amgylchedd dysgu y dysgwyr. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn hanfodol yn y dosbarth oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar ddefnyddio technegau yma i gefnogi a gwella dysgu dysgwyr. Yn wahanol i asesiadau crynodedol traddodiadol mae asesu ar gyfer dysgu yn darparu adborth parhaus sy'n helpu dysgwyr i ddeal eu cryfderau e'u meysydd i'w gwella, gan feithrin ymgysylltiad dyfnach a'r broses ddysgu. Dwedodd William(2011) fod y math o asesu yma, ddim yn prawf i'r dysgwyr ond yn ffordd i athrawon asesu eu datblygiad a pa elfenau gall datblygu ym mhellach sydd yn effeithiol yn ystod anelu at camau cynydd y dysgwyr. Trwy gynnwys dysgwyr yn eu hasesiad eu hunain trwy ddulliau fel asesu cyfoedion a hunanasesu mae'n sicrhau datblygiad yn eu sgilliau a gwella perfformiad academiaidd y dysgwyr.

Byddaf yn trafod strategaethau dysgu er mwyn hybu dysgu annibynnol i gynyddu dealltwriaeth yn y dosbarth. Byddaf yn trafod fy nghynllun wers a'r strategaethau wnes i ddefnyddio er mwyn datblygu sgiliau dysgwyr ymhellach. Mae'r strategaethau yma yn bwysig iawn er mwyn datblygu sgiliau y dysgwyr ond yn hytrach na hynny er mwyn helpu'r athrawes asesu dealltwriaeth y dosbarth. Wrth ddefnyddio'r technegau yma mae'r athrawes yn gallu asesu dealltwriaeth ar y cyd ac yna cynllunio er mwyn feithrin dysgwyr i hunanasesu a sicrhau fod y dysgwyr yn deall nod y wers.

Y Dysgwyr

Wnes i gynllunio'r cyllun yma ar gyfer dosbarth o 28 ym mlwyddyn 3. Mae'r dosbarth yma yn llawn lefelau academiaidd gwahanol felly wrth gynllunio roedd rhaid gwahaniaethu tasgau a technegau asesu ar gyfer dysgu. Mae'r gwers yma yn adeiladwaith tuag at ysgrifennu estenedig. Mae'r tasgau wnes i gyllunio yn dysgu'r plant nodweddion ac agoriadau brawddegau er mwyn dyrchafu eu hysgrif. Penderfynais i gynllunio gwers leithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu lle fydd y dysgwyr yn dysgu sut i ddefnyddio odl yng ngherdd. Byddaf yn datblygu sgiliau llythrennedd a chyfathrebu yn ystod y tasgau yma gan defnyddio asesu ar gyfer dysgu er mwyn asesu cynydd y dysgwyr.



Cynllun wers

Yn fy nghynllun wers wnes i cynllunio wers leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu sydd yn gynnwys dau grwp a fydd yn wneud gwahanol tasgau er mwyn adeiladu tuag at ysgrifennu estenedig. Mae'r tasgau wnes i gynllunio yn adeiladwaith tuag at ysgrifennu cerdd eu hun trwy ymarfer nodweddion cerdd. Mae'r sgiliau yma mae'r dysgwyr yn ymarfer yn ddatblygu sgiliau dychymig a chreadigrwydd gan ganiatau plant i archwilio ysgrifennu disgrifiadol. Mase llyfr Carroll, J.A (2006) yn uwchleuo pwysigrwydd dysgu dysgwyr sut i ddefnyddio iaith manwl gywir er mwyn disgrifio beth mae'n nhw'n weld, clywed, teimlo a dychmygu. Atgyfnertha fod ysgrifennu disgrifiadol yn caniatáu dysgwyr iau i archwilio'r byd mewn fwy o fanylion gan cynyddu hyder a chreadigrwydd y dysgwyr. Penderfynais i i wneud y tasg yma gan fod yn bwysig i blant deall fod pawb yn weld y byd mewn golau gwahanol. Mae barddoniaeth yn enghraifft perffaith o hyn gan fod yn dangod ffordd creadigol i ddisgrifio sut ydych yn teimlo sydd yn wers bwysig er mwyn i'r plant dechrau mynegi teimladau eu hun mewn darn o waith. Mae'r tasgau rydw i wedi cynllunio yn ymarfer defnyddio odl er mwyn cynllunio i ysgrifennu cerdd eu hun. Bydd rhaid i'r plant dadansoddi cerdd gan defnyddio pensiliau lliw gwahanol i adnabod nodweddion y gerdd. Mae hyn yn tasg effeithiol wrth cynllunio cerdd eu hun gan fod yn helpu'r plant creu banc o eiriau neu nodwethion hoffenn nhw defnyddio yn eu darn o waith. Yn ogystal a hyn bydd y tasg arall yn gofyn i't plant cysylltu odlau gyda'n gilydd yn seiliedig ar sut mae'n nhw'n sowndio. Mae hyn yn tasg effeithiol iawn gan fod yn helpu'r dysgwyr dod yn cyfarwydd a patrymau yr odl a fydd yn sgil gallen nhw defnyddio wrth cynllunio cerdd eu hun.

Darpar athro:	Megan James	Dosbarth / Grŵp	Blwyddyn 3
MDPh neu Bwnc:	leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Dyddiad <i>(sylwer y gall y sesiwn hon fod yn un barhaus)</i> :	29/04/24
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm (Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, Disgrifiadau dysgu, y cwricwlwm 'blaenorol'...)	leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu- Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am arddulliau ysgrifennu a nodweddion gwahanol genres llenyddol er mwyn creu fy ngwaith fy hun Gwyddoniaeth a Thechnoleg- Rwy'n gallu cynhyrchu dyluniadau i fynegi fy syniadau mewn ymateb i gyd-destunau penodol.		
Cysylltiadau ystyrion ar draws y Cwricwlwm (Cysylltiadau â MDPhau eraill neu'r Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd)	Fframwaith Llythrennedd- Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa trwy wrando a darllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau.		

Targedau Personol (targedau a'r effaith ganlyniadol ar ddysgu – cyfeiriwch at unrhyw dargedau sydd wedi'u nodi yn y dyddlyfr dysgu neu gyfarfod adfyfrio wythnosol a disgrifiwch yr effaith a ddymunir ar ddysgu)

Sichrau fy mod i yn cael diweddsglo sydd yn clymu popeth at ein gilydd.

Bwriad Dysgu

'Dylai hyn ganolbwyntio ar y dysgu gan y disgyblion yn ystod y wers, yn hytrach na'r hyn y byddant yn ei wneud, a dylai fod yn fyr, yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy.' (Crichton, H., a Mcdaid, A. 2016 t. 196)

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu-

Adnabod oldlau mewn darn o barddoniaeth

Gallu creu odlau eu hun er mwyn ysgrifennu darn o farddoniaeth eu hun

Gwyddoniaeth a Thechnoleg-

Dechrau dod yn cyfarwydd a dechrau deall y darn o barddoniaeth

Meini prawf llwyddiant

Yr hyn mae angen i'r disgyblion ei ddangos i fodloni'r Bwriad Dysgu yn llwyddiannus.

- Defnyddio lluniau er mwyn deall darn o farddoniaeth
- Dechrau adnabod odlau a nodweddion eraill
- Dechrau dysgu'r cerdd ar cof

Cynllunio ar gyfer camsyniadau:

Defnyddiwch yr adran hon i ragweld gwallau a chamddealltwriaethau disgyblion a'r ymatebion yr ydych yn bwriadu eu rhoi iddynt.

Mae rhaid i bob athro deall nod y cychldro er mwyn arwain y plant y ffordd gywir.

DILYNIANT ADDYSGU A DYSGU

(Ychwanegwch neu dynnu rhesi isod fel y bo'n briodol)

Amse ru:

*Rhannwc
h yr
amseru
yn
grwpiau
os yw'n
briodol.
Gwnewc
h yn siŵr
fod
disgyblion
n yn
mynd ati
i 'wneud'
yn gyflym
a bod y
cyfnodau
pontio'n
cael eu
hystyried*

Rôl yr athro a'r staff cymorth:

*e.e. cwestiynau allweddol, adalw dysgu
blaenorol, modelu ac esboniadau, gwirio
dealltwriaeth, defnydd a fwriedir o oedolion
ychwanegol*

*Dewis o fodel addysgegol neu o'r 12
egwyddor addysgegol*

Y dysgu gan y disgyblion a'r gweithgare ddau:

*Beth fydd y
disgyblion yn
dysgu ei wneud
a pha
weithgareddau
/ adnoddau
fydd yn
hwyluso hyn?*

*Cyfeiriwch at y
ddogfen Dysgu
Sylfaen i gael
manylion y
ddarpariaeth.*

Strategaeth au Cynhwysol (yn cynnwys gwahaniaet hu):

*Y rhesymau
dros sgaffaldio a
manylion hynny.*

*Mathau o
gynrychiolaeth
mewn tasgau.*

Gwiriwch beth mae disgyblion yn ei wybod, yn ei ddeall, ac yn gallu ei wneud:

*Cwestiynau allweddol, mathau o ymarferion adalw,
cyfleoedd i hunanasesu ac asesu cymheiriaid, cyfleoedd
marcio byw, adborth a fwriedir.*

10 munud	Byddaf yn creu pwynt pwer gan torri lawr y cerdd llinell i linell gan ychwanegu lluniau felly gallen nhw dechrau deall y cerdd. Byddaf hefyd yn wneud pai corbet gyda'r plant er mwyn i nhw dechrau dysgu y cerdd. Byddaf hefyd yn dangos plant enghreifftiau o odlau er mwyn i nhw dod yn cyfarwydd a odli.	Bydd rhaid i plant gwrandao a chyfathrebu gyda fi wrth i fi gofun cwestiynau a chyflwyno'r cerdd.		Byddaf yn gofun cwestiynau am y gwaith gan hefyd herio rhai i ymestyn ar atebion. Byddaf yn gofyn i'r plant i ddechrau delunio map cysyniad er mwyn rhoi yr holl wybodaeth mae'n nhw'n deall am y cerdd ar darn o babur ac unrhyw cestiynau hoffwn nhw cael eu hateb ar ol y wers.
-------------	--	---	--	--

45 munud Cylchd ro1	Grwp Ffocws 1 - Dadansoddi cerdd Darganfod yr odl a nodweddion eraill gan liwio Rol y staff: Dechrau trafodaethau yn eu partneriaid er mwyn trafod gwahaniaethau yr nodweddion yma	Bydd rhaid l'r plant cyfathrebu gyda'n gilydd er mwyn dadansoddi a chyfathrebu syniadau l'r bwrdd er mwyn modelu atebion da.	Ar gyfer her werdd bydd plant mwyaf alluog yn edrych at fwy o nodweddion na rhai plant mewn lliwiau gwahanol.	Byddaf yn gwrandao ar y trafodaethau er mwyn sichrau fod pawb ar dasg ac ar y trwywydd iawn. Byddaf hefyd yn cwestiynnu rhai plant am gwahaniaeth rhwng y nodweddion.
45 munud Cylchd ro2	Grwp ffocws 2- Cysylltu geiriau sy'n odli Cysylltu trwy liwio'r geiriau Rol y staff- Taflenu geirfa gyda odlau	Bydd rhaid l'r plant gwrandao ar swn y geiriau er mwyn cysylltu y geiriau yn gywir.	Gall rhai plant ysgrifennu odlau eu hunain. Gall hyn adeiladu i ysgrifenu cwpledi eu hun hoffwn cynnwys yn eu barddoniaeth eu hun.	Yn ogystal a hyn yn ystod y tasg yma gall y plant dechrau ysgrifennu unrhyw odlau neu geiriau allweddol heffen nhw defnyddio yn eu cerdd gan ysgrifennu ar eu map cysyniad.

10 munud	Byddaf yn dangos gwaith y grwpiau ffocws er mwyn modelu gwaith da.	Bydd gan y plant amser i ychwanegu at ei map cysyniad mewn lliw gwahanol er mwyn adio unrhyw wybodaeth mae'n nhw wedi dysgu neu ateb unrhyw cwestiynau oedd yn dryssu i llenwi map meddwl yma.		Byddaf yn cwestiynnu plant er mwyn gweld os ydyn nhw yn gallu ymestyn ar eu atebion cyn y wers. Gall hefyd weld ei mnap cysyniad i weld os oes unrhyw gwagle a chael y plant i rhannu syniadau er mwyn i'r plant eraill cyfnodi.
----------	--	--	--	--

Mapio cysyniadau

Un o'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu defnyddiais yn fy wers yw mapio cysyniadau. Mae'r dysgwyr yn dechrau y wers gan ysgrifennu pob peth mae'n nhw wybod am y pwnc felly yn yr enghraifft yma byddaf yn darllen y gerdd i'r dysgwyr a fydd rhaid i nhw ysgrifennu pob peth roedden nhw deall neu ddim yn deall am y gerdd. Gall y plant wneud hyn fel grwp, partneriaid neu yn annibynnol. Wrth wneud y tasg cychwynol mae'n rhoi siawns i'r dysgwyr meddwl am y gerdd a ysgrifennu unrhyw questiynau hoffwn cael eu hateb. Yna fydd y dysgwyr yn ddechrau ar eu tasgau gwahanol gan lliwio odlau neu ansoddeiriau yn eu gerdd a cysylltu odlau mewn tasg arall. Ar ol gorffen y wers bydd gan y plant deg munud i ateb unrhyw cwestynau a oedd ar y tudalen ac adio fwy o wybodaeth or hyn mae'n nhw'n deall now mewn lliw arall. Mae'r asesu yma yn perffaith am y dosbarth blwyddyn 3 yma gan fod yn addas i bob lefel academiaidd sydd yn y dosbarth. Gall plant llai alluog tynnu lluniau o'r hyn mae'n nhw'n deall am y gerdd a gan eu fod yn rhywbeth wnaethon nhw creu bydd genym nhw taflen gwybodeth yn geiriau eu hun. Yn ogystal a hyn mae'n dangos i'r athrawes cynnydd dealltwriaeth y dysgwyr a lle gall wella gwrs nesaf. Gall wedyn dechrau gwrs newydd gan ateb rhai o'r cwestiynau sydd dal ar y papur er mwyn lenwi'r map meddwl. Bydd y darn o babur yma wedyn yn gallu helpu'r dysgwyr fel rhyw fath o taflen wybodaeth pan fydd rhaid i'r plant ysgrifennu cerdd eu hun. Roedd asesu yma yn effeithiol iawn yn y dosbarth, un am eu fod yn ffordd perffaith i asesu cynnydd dealltwriaeth ond dau er mwyn i'r plant creu taflen wybodaeth annibynnol a fydd yn cefnogi'r dysgwyr wrth iddyn nhw ysgrifennu darn o barddoniaeth eu hun.

Llenyddiaeth o blaid ac yn erbyn

Mae Novcak a Cañas (2006) yn amlygu bod mapiau cysyniad yn helpu disgyblion a threfnu gwybodaeth a all eu helpu i wneud cysylltiadau rhwng syniadau.



Schwartz, L. et al (2004) yn trafod heriau defnyddio mapiau cysyniad ar gyfer disgyblion iau. Mae mapiau cysyniad yn gofyn i'r disgyblion trefnu gwybodaeth gan gysylltu gyda bwnc yn effeithiol, a gall llawer o ddisgyblion gweld hyn yn anodd yn annibynnol.

Mae Darch, C., & O'Conner, P. (2016) yn esbonio fod mapiau cysyniadau yn techneg effeithiol ar gyfer trefnu gwybodaeth ymhlith disgyblion. Mae Darch ac O'Connor yn amlygu sut mae'r techneg yma yn cynorthwyo'r cof ac yn gwella dealltwriaeth.



Mae McAleese, R. (2004) yn beirniadu'r defnydd o rai strategaethau asesu ar gyfer dysgu, gan gynnwys mapio cysyniadau gan fod nad yw'n dennu diddordeg disgyblion. Mae'n dadlau y gall mapio cysyniadau weithiau ganolbwyntio mwy ar y broses o fapio nag ar y ddealltwriaeth sydd yn amharu ar ei effeithlonrwydd.

Partneriaid parebli

Yn ystod y tasgau byddaf yn annog dysgwyr i edrych dros gwaith ein gilydd a gweithio mewn parau er mwyn cwblhau y tasgau. Mae hyn yn effeithiol gan ei fod yn rhoi cyfle i'r plant rhannu syniadau gyda'n gilydd ac asesu waith ein gilydd. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr llai alluog dysgu oddi wrth ddysgwyr eraill sydd yn deall y cerdd yn fwy. Yn ogystal a hyn wrth asesu gwaith dysgwyr eraill bydd rhaid i'r plant dod yn cyfarwydd a'r meini prawf llwyddiant y dasg a chynllun marcio yn y dosbarth. Mae'r dwy techneg yma yn cael eu dysgu mewn pob wers a felly yn y wers yma byddaf yn pwysleisio yn glir bwriad y wers er mwyn i'r plant asesu yn gywir. Mae'r techneg yma yn anodd i plant iau gan fod angen meddyliad beirniadol a na fydd pob dysgwr wedi datblygu ar y sgil yma. Felly bydd rhaid rhoi llawer o arweiniaeth yn ystod asesu yma gan adael y meini prawf llwyddiant ar y sgrin er mwyn i'r dysgwyr mynd yn ol a gwirio eu gwaith. Ond yr elfen effeithiol am yr asesu yma yw fod gan y plant cyfle i weld ble gall wella yn ei waith ond hefyd adnabod yr elfenau gywir hefyd. Mae'n annog dysgwyr i weithio yn fwy annibynnol ond hefyd yn gofyn i'r plant helpu ein gilydd cyn gofyn am help yr athro. Wnaeth hyn gweithio'n dda yn y dosbarth ac wrth marcio gallaf weld ble yn union wnaethon nhw deall y meini prawf llwyddiant a lle oedd angen gwella. Ond nad oedd hyn yn hollol effeithiol yn y dosbarth yma gan fod llawer o dysgwyr yn ffrindiau a felly nad oedden nhw yn meddwl yn beirniadol wrth edrych am elfenau i wella yn eu gwaith. Felly er mwyn osgoi hyn yn y dyfodol byddaf yn gofyn i'r plant defnyddio un ser er mwyn uwcholeuo pa rhan o'r meini prawf nad oedden nhw wedi cyrraedd a ticio lle oedd y plant wedi cyrraedd y meini prawf llwyddiant. Hefyd byddaf yn newid grwpiau y dosbarth er mwyn rhoi dwy dysgwr efallai nad oedd yn siarad gyda'n gilydd er mwyn i nhw cael y cyfle i rhannu syniadau gyda rhywun newydd ac efallai bydd hyn yn helpu'r plant marcio yn fwy beirniadol.

Llenyddiaeth o blaid ac yn erbyn

Mae papur arloesol Black a William, Inside the Black Box(1998) yn dweud gall partneriaid parebli wella dysgu yn sylweddol, yn enwedig pan fydd dysgwyr yn cael adborth strwythuredig.Mae partneriaid parebli yn effeithiol gan eu fod yn helpu dysgwyr dysgu eu hunain trwy asesu gwaith eraill. Fodd bynnag, fel y mae Black a Wiliam yn nodi, mae'r strategaeth hon yn gofyn am gymorth priodol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu darparu adborth defnyddiol ac adeiladol.



Er bod Topping yn cefnogi partneriaid parebli, mae'n nodi bod angen ei weithredu'n ofalus. Efallai na fydd gan blant yr aeddfedrwydd gwybyddol i ymgymryd ag partneriaid parebli effeithiol heb arweiniaid clir a strwythuredig. Heb arweiniaeth gallai partneriaid parebli arwain at adborth anghywir a gwerthusiadau rhagfarnllyd.

Mae ymchwili Topping yn dangos bod partneriaid parebli yn fuddiol ar gyfer datblygu sgiliau gwybyddol. Trwy werthuso gwaith dysgwyr eraill daw dysgwyr yn fwy beirniadol am eu dysgu eu hunain. Mae'r broses hon yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r pwnc, gan fod yn rhaid iddynt ddadansoddi a beirniadu gwaith eraill mewn ffordd feddylgar.



Er bod yn cefnogi partneriaid parebli mae Black a William yn nodi y gall y techneg yma fod yn broblem i dysgwyr iau. Mae eu hymchwili yn pwysleisio pwysigrwydd adborth clir a chywir mewn strategaethau asesu ar gyfer dysgu, a all fod yn anodd ei gyflawni mewn partneriaid ar gyfer dysgwyr iau sydd efallai ddim yn deall nod y wers yn llawn. Efallai na all dysgwyr rhoi adborth clir ac effeithiol yn enwedig dysgwyr iau oherwydd nad oes ganddynt y gallu i ddehongli a chymwysu meini prawf asesu yn gywir.



Casgliad



I gloi credaf fod asesu ar gyfer dysgu yn elfen bwysig iawn i fod yn athrawes gan fod yn cymryd i ffwrdd o asesu traddodiadol a fydd yn rhoi dysgwyr mewn i focs ond yn helpu dysgwyr datblygu sgiliau yn annibynnol. Mae hefyd yn helpu athrawon asesu dealltwriaeth yn y dosbarth, yn ystod y wers yn lle ar diwedd wreth farcio llyfrau. Mae llawer o ffyrdd gall asesu dygwyr yn yr dosbarth a dyma dim ond rhai o'r technegau wnes i ddefnyddio a chredaf fod pob un ohonyn yn effeithiol iawn mewn elfennau gwahanol. Ond fel popeth arall gall hefyd datblygu ar y technegau yma gan cynllunio i anghenion penodol eich dobarth chi. Mae'r strategaethau yma yn diddorol iawn gan fod newid cwestynau o caeedig i agored gall dysgu llawer am dealltwriaeth un dygwyr a felly byddaf yn parhau i ddatblygu ar y technegau yma gan geisio rhai newydd i weld beth sydd yn gweithio i blant fi.



Baume, D., (2003.) *The trouble with feedback.*

Black, P. and Wiliam, D., (1998.) *Inside the black box: Raising standards through classroom assessment.* Tud 139–148.

Carroll, J.A., (2006.) *The elements of writing: Descriptive writing.*

Darch, C. and O'Connor, P., (2016) *Concept mapping in the classroom: Improving learning and performance.*

Hattie, J. and Timperley, H., (2007.) *The power of feedback. Review of Educational Research,* Tud 81–112.


McAleese, R.,(2004,) *Assessment for learning: Its impact on the classroom and beyond.*

Novak, J.D. and Cañas, A.J., (2006.) *The theory underlying concept maps and how to construct and use them.*

Schwartz, L., et al., (2004.) *Preparing teachers for inclusive classrooms.*

Topping, K.J., (2009.) *Peer assessment. Theory into Practice,* Tud 20–27.

Wiliam, D.,(2011.) *Embedded formative assessment.*



Diolch am wrando!
Unrhyw cwestiynau?